## P-03-273 Cludo tyrbinau gwynt yn y Canolbarth

## Geiriad y ddeiseb

> Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol i sicrhau eu bod yn ymgynghori'n briodol â chymunedau ynghylch datblygiadau ffermydd gwynt a'u bod yn cynnal asesiad priodol o effaith y datblygiadau ar y seilwaith ffyrdd gan ystyried sut y bydd problemau traffig yn effeithio'n ehangach ar sectorau fel twristiaeth cyn cymeradwyo unrhyw ddatblygiad. Credwn mai dim ond drwy gynnal ymchwiliad cyhoeddus y gellir cwblhau asesiad priodol.

**Linc i'r ddeiseb:** http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=873

**Cynigwyd gan:** Cyngor Tref y Trallwng

**Nifer y llofnodion:** 1

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 19 Ionawr, 23 Mawrth, 25 Mai, 13 Gorffennaf, 28 Medi a 16 Tachwedd 2010; a 25 Ionawr a 29 March, 12 Gorffenaf 2011.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd gohebiaeth gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Gwirfoddolwyr Abergorlech, Llansawel a Rhydcymerau.